CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 19, 2015

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain**
**Nos Fawrth, Mai 19, 2015 am 7:30 o'r gloch.**

**Presennol** Cynghorwyr: Peredur Jenkins, Huw A. Evans, Mordaf Roberts, Gerallt Griffith, Meurig Ashton, Barry Jones a Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Rhun Prys Jones ac Emlyn Roberts.

**3. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Rhun Prys Jones
Is Gadeirydd: Llion Rh. Williams

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Llywodraethwyr Ysgol Brithdir: Geraint R. Evans
Llywodraethwyr Ysgol Llanfachreth: Mordaf Roberts
Llywodraethwyr Ysgol Rhydymain:

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Llion Rh. Williams.

**4. Datgan diddordeb.** Roedd Peredur Jenkins a Huw A. Evans yn datgan diddordeb ynglŷn â adolygu ysgolion cynradd.

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 17, 2015**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 17, 2015**

Eitem 10.a. Galwad ffôn (14/3/2015) oddi wrth Ms Nicko Maysford, Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod bod sylw yn cael ei roi ar y mater. Y hi sydd wedi cymryd drosodd swydd Mr Aled Thomas.

Eitem 7.r. Llythyr ateb (10/4/2015) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod maent yn rhoi sylw i i'r cyffyrdd wrth Trem-hyfryd a Ffridd Arw.

**7. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Cafwyd cyfarfod gyda chynrychiolydd Cyngor Gwynedd ynglŷn â gwaith sy'n cael ei wneud ar gyffordd Bryncoedifor ar ffordd A494. Roedd pryder ar uchdwr wal sy'n cael ei adeiladu.

b. Mae'n debygol bydd bin ail-gylchu yn cael ei roi yn Rhydfelen.

c. Mae'r gwaith o glirio coed ar Ffordd Lefel yn cael ei wneud ond mae wedi dod i ben am y tro oherwydd ceblau trydan. Digwyddodd damwain i un o'r gweithwyr ar y safle.

d. Mae Cabinet Gwynedd wedi penderfynu penodi Corff Cysgodol o'r llywodraethwyr yr ysgolion a phenodi Prifathro at adolygu ysgolion cynradd.

**8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (10/3/15) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £200.

b. Llythyr (3/2015) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

c. Llythyr (23Mawrth 2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn gwahodd i'r Cyngor i gyflwyno cynnig i'w trafod yn eu Cyfarfod Blynyddol ar 3 Hydref 2015.

ch. Llythyr (24 Mawrth 2015) oddi wrth Gwasanaeth Cofrestru, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod ni dderbyniwyd cais am ethol i lenwi swydd wag i'r Cyngor felly cawn symud ymlaen i gyfethol aelod newydd.

Penderfynwyd codi'r mater yn ein cyfarfod nesaf.

d. Llythyr (27/3/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Llwybrau Troed Cyhoeddus rhifau 14,16,19 ,31 a 56 ar gau dros dro am gyfnod o chwe mis o 1/4/2015

dd. Derbyniwyd (15/04/2015) dau gopi o Y Llais oddi wrth Un Llais Cymru.

e. Llythyr (23/4/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth ar Gorchymyn Deddf Llywodreath Leol 2013. O fis Mai 1, 2015 bydd angen Cynghorau Cymuned a Thref rhoi gwybodaeth yn electroneg (h.y. ar wefan). Y wybodaeth fydd: am glerc ac aelodau'r cyngor, cofnodion cyfarfodydd y cyngor ac unrhyw ddatganiad archwiliedig o gyfrifon y Cyngor a hysbysiadau cyhoeddus. Mae angen sefydlu cofrestr o fuddiannau aelodau a'i fod ar gael i'r cyhoedd a'i gyhoeddi ar y wefan.

f. Llythyr (01/05/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau:
Making Effective Grant Applications yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar 19/05/2015 am 6:30yh.
Cyllid Llywodraeth Leol yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar 9/06/2015 am 6:30yh.

ff. Lythyr ((01/05/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd a Chyfarfod Blynyddol y Pwyllgor yng Nghanolfan Henblas, Stryd Fawr, Y Bala ar 13 Mai 2015 am 7:00yh. Amgáu mae Cofnodion cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Dinas Mawddwy, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Dolgellau.

g. Llythyr (30/04/2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith arwisgo ar ffyrdd:
Maes yr Eglwys Wen, Brithdir.
Brithdir Bryncoedifor.

h. Llythyr (8 Mai 2015) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Maent yn cynnal sesiwn Rhan 2 o Her i Gwynedd. Bydd yn sesiwn yn trafod gwybodaeth cafwyd yn Rhan 1. Bydd y sesiwn yn Siambr, Swyddfa'r Cyngor Dolgellau ar Mehefin 8. 2015 am 6:00yh.

i. Llythyr (13/5/2015) oddi wrth Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth o gynllun tuag at wasanaethau cymdeithasol ac iechyd a'r plethiad rhwng y gwasanaethau Cyngor Gwynedd a Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/291A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adnewyddu caniatâd cynllunio NP5/54/291 ac sydd wedi terfynu ar gyfer mast telathrebu 15m o uchder, caban offer a'r holl ddatblygiadau cysylltiedig. Fferm Caerynwych, Brithdir, Dolgellau.

ii. Cais NP5/54/295A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adnewyddu caniatâd sydd wedi terfynu ar gyfer mast telathrebu 14.5m o uchder, caban offer a'r holl ddatblygiadau cysylltiedig. Gwanas, Dolgellau.

iii. Cais NP5/54/36G. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adnewyddu caniatâd cynllunio NP5/54/36C sydd wedi rhedeg allan ar gyfer mast telathrebu 10m o uchder, caban offer a'r holl ddatblygiad cysylltiedig. Coed Rhos Lwyd, Rhydymain.

b. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/343A. Adeiladu estyniad newydd, addasiadau i'r ysgol, gosod paneli haul ar y to, a chreu trefniadau parcio newydd. Ysgol Gynradd Ieuan Gwynedd, Rhydymain.

Penderfynwyd (27/4/2015) rhoi gwybod i'r Awdurdod bod dwy farn ar y cynllun:

1. mae rhai o'r aelodau yn cefnogi'r cynllun.

2. mae eraill yn erbyn y cynllun oherwydd bod y cais wedi ei gyflwyno cyn i'r ymgynghoriad ysgolion cael ei gwblhau sy'n groes i ganllawiau trefniadaeth yr ysgolion.

ii. NP5/54/289C. Newid defnydd o ddiwydiant ysgafn (Dosbarth Defnydd B1) i gampfa (Dosbarth Defnydd D2). Old Workshop Building, The Old Creamery, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

**10. Materion Ariannol**

a. Llythyr (14/3/2015) oddi wrth Mr John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn rhoi gwybod mae am archwilio'r Cyfrifon y Cyngor 2014-15 ar Mai 29, 2015.

b. Llythyr (17/3/2015) oddi wrth Grŵp Cynefin yn rhoi gwybod maent yn cynnig rhoi grant o £200 tuag at fainc newydd wrth lwybr cyhoeddus. Mae angen gwneud y gwaith cyn 17 Medi 2015. (Gofynnwyd am £400)

c. Llythyr (18/3/2015) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 05/04/2015).

ii. Manylion newydd o gyflog y Clerc.

Taliad misol i'r Clerc: £86.75 (£260.25 yn chwarterol).
Taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £21.60 (£64.80 yn chwarterol).
Cyfanswm: £1,300.18. (Gweler Cofnodion Chwefror 10, 2015).

iii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5 Ebrill 2015.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mawrth, 2015: £1,134.83.

dd. Balans yn y banc ar 29 Mawrth 2015: £6,521.21.

e. Llythyr (30 Mawrth 2015) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 oddi wrth UHY Hacker Young. Angen cwblhau'r ffurflen erbyn 31 Mai 2015.

Arwyddwyd ffurflen UHA Hacker Young.

f. Dogfennau (24 Ebrill 2015) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth AON am y cyfnod Mehefin 01, 2015 i Mehefin 01, 2016. Y tâl i'w adnewyddu yw £900.54. (Tal flwyddyn ddiwethaf oedd £900.53).

Penderfynwyd adnewyddu'r polisi a thalu'r ffi.

g. Derbyniwyd swm o £3,000.00 (Praesept) oddi wrth Cyngor Gwynedd (27/04/2015).

h. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ebrill, 2015: £1,134.90.

i. Balans yn y banc ar 29 Ebrill 2015: £8,503.15.

j. Llythyr (8/5/2015) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod bod gwefan y Cyngor wedi ei chwblhau a'i chyfeiriad yw www.cyngorllanfachreth.cymru/1
Mae angen talu Elfed ap Gomer £430 fel cytunwyd am greu'r wefan.

Penderfynwyd talu'r gost.

l. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2014 - Mawrth 31, 2015:

i. Swm am: stampiau + papur + amlenni : £106.46.

Penderfynwyd talu'r swm.

ii. Swm i Gapel Salem am brintio: 417 x 2p = £8.34.

Penderfynwyd talu'r swm.

ll. Anfonwyd adroddiad ariannol 2014-2015 y Cyngor i'r aelodau.

**11. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

---

Llofnod: Dyddiad: